



Ydy'ch bil Treth Gyngor yn gywir? Oes modd ichi dalu llai?

Mae llawer o bobl yng Nghymru sydd ddim yn gwybod y gallen nhw dalu llai o Dreth Gyngor.

O fis Ebrill ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ymgyrch yn gofyn i bawb edrych at yr wybodaeth sydd ar l.gov.wales/counciltaxhelp a chysylltu a'u hawdurdod lleol os ydynt yn credu y gallent dalu llai.

Mehefin y 27ain 1914 - Daily Post Lerpwl

CIPIO'R HERWR IEIR

Cafodd trigolion Dyffryn Lledr a thrigolion Dolwyddelan diweddar eu haflonyddu'n arw gan ymddangosiadau rhyfedd ar y mynydd cyfagos. Dywedodd y bugeiliaid y bu iddyn nhw weld dyn bychan blewog yn hercian o garreg i garreg gan wneud sŵn od.

Dechreuodd ieir a ffrwyth ddiflannu a rhoddwyd y bai ar yr ymwelydd dieithr am hyn. Penderfynwyd trefnu criw o bobl i hela'r peth hynod hwnnw a'i garcharu os yn bosib. Bu i'r bugeiliaid ymuno â'r helfa gan fforio'r mynyddoedd cyfagos, ond hynny heb lwyddiant. Hynny ydy, nes i'r criw gyrraedd cyffiniau Penmachno lle gafodd y bugail John Roberts fraw yn sgil ebychiad ffyrnig. Gan edrych tu ôl i garreg, gwelodd anifail dieithr ac aeth ati i'w daro gyda'i ffon fel ei fod yn anymwybodol. A dyma pryd welodd mai mwnci oedd yr ymwelydd dieithr! Wedi dianc mae'n debyg o gasgliad preifat rhywun neu'i gilydd.

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.